Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanbedr

Llanbedr
Gwynedd
LL45 2NW

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanbedr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llanbedr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 43 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 34 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 6 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 4.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 23.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 41.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 28/04/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/09/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/04/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae llawer yn mwynhau dod i'r ysgol, gyda bron bob un yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at ei gilydd ac oedolion. Mae staff yn gofalu'n dda am les disgyblion ac yn eu cefnogi'n effeithiol. Mae ethos Cymreig clir, ac mae disgyblion yn datblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn llwyddiannus.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol, ac mae pwyslais amlwg ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a hanes Cymru. Mae'r dosbarthiadau'n fannau dysgu gweithgar, a gwneir defnydd addas o'r ardaloedd tu allan. Er bod addysgu'n ysgogi diddordeb disgyblion ar y cyfan, nid yw disgwyliadau athrawon bob amser yn ddigon uchel. Ar adegau, mae gweithgareddau'n rhy gaeth eu strwythur, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion feddwl drostynt eu hunain a gweithio'n annibynnol. Yn ogystal, nid yw'r her a ddarperir bob tro'n datblygu medrau disgyblion yn gynyddol dros amser. Mae disgyblion yn dechrau ymateb i adborth athrawon trwy wella eu gwaith, ond mae'r drefn yn anghyson.

Mae gan y pennaeth mewn gofal weledigaeth sy'n seiliedig ar sefydlu awyrgylch hapus ble mae pawb yn rhoi o'i orau. Mae arweinwyr yn deall cryfderau'r ysgol ac yn llwyddo i wneud gwelliannau i rai meysydd pwysig. Maent yn rhoi pwyslais priodol ar flaenoriaethau cenedlaethol fel cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac ar ddatblygu'r Gymraeg.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Codi disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, gan gefnogi disgyblion i weithio'n gynyddol annibynnol

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n briodol i ddatblygu ystod lawn o fedrau yn gyson dros amser

A3 Sicrhau bod adborth gan athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn gyson

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae awyrgylch cartrefol, cynhwysol a gofalgar yn bodoli yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mynychu, ac mae bron bob un yn teimlo'n ddiogel. Mae naws Gymreig gref i'r ysgol, gyda phwyslais clir ar ddatblygu dwyieithrwydd. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ystod egwyl, ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn groesawgar ac yn parchu ei gilydd ac ymwelwyr. Mae llawer yn dyfalbarhau yn eu dysgu am gyfnodau estynedig.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm addas sy'n ysgogi disgyblion yn briodol. Mae staff yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion drafod materion hanesyddol a moesol yn eu cymuned, a thu hwnt, er enghraifft wrth astudio hanes Tryweryn a'i effaith ar y gymuned leol. Maent yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau gwyddoniaeth a thechnoleg ar draws yr ysgol, ond nid yw ychydig o feysydd y cwricwlwm wedi'u datblygu'n llawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth foesol ac ysbrydol gadarn.

Mae perthnasoedd gwaith cadarn rhwng staff a disgyblion yn cefnogi amgylchedd dysgu cadarnhaol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwybod at bwy i droi am gymorth, ac mae dosbarthiadau'n fannau dysgu gweithgar. Defnyddir staff cymorth yn effeithiol i gefnogi dysgu a lles disgyblion yn ystod sesiynau ac wrth ddarparu rhaglenni cefnogi, lle bo'n briodol.

Mae athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn defnyddio holi treiddgar i wirio dealltwriaeth disgyblion. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac yn darparu gweithgareddau sy'n ysgogi eu diddordeb yn briodol. Mae disgyblion yn cael ychydig o gyfleoedd buddiol i lywio'r dysgu. Ar y cyfan, mae'r addysgu'n symud y dysgu ymlaen ar gyflymdra addas, gyda gweithgareddau diddorol sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymholi ac ymchwilio'n bwrpasol. Serch hynny, mae anghysondebau yn nisgwyliadau ac arferion yr addysgu, yn enwedig o ran darparu her briodol i alluogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu a chymhwyso'r ystod lawn o fedrau dros amser. Mae gorddibyniaeth ar fframweithiau parod yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i weithio'n annibynnol. Mae'r adborth a gynigir ar waith disgyblion yn dechrau cael effaith mewn rhai meysydd, ond nid yw'n ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw gallu llawer o ddisgyblion i werthuso a gwella eu gwaith eu hunain wedi'i ddatblygu'n llawn.

Mae'r holl staff yn modelu'r Gymraeg yn bwrpasol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu'r iaith o oedran cynnar. Maent yn dod yn siaradwyr hyderus ac yn dangos balchder yn y Gymraeg. Erbyn brig yr ysgol, maent yn cyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn glir ac yn gynyddol gywir, gan sgwrsio'n hyderus am eu llyfrau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn darllen gyda

chywirdeb a brwdfrydedd, ac yn defnyddio eu medrau darllen i ymchwilio a chaffael gwybodaeth o ystod o ffynonellau. Mae'r darllenwyr mwyaf hyderus yn darllen gyda mynegiant pwrpasol ac yn dehongli testunau'n gymwys. Mae mentrau fel 'bydis darllen' yn cefnogi datblygiad medrau darllen yn effeithiol. Mae medrau ysgrifennu cynnar y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n briodol. Mae gwaith diweddar i wella ysgrifennu ar frig yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn dechrau ysgrifennu'n estynedig ar draws ystod o ffurfiau. Mae llawer yn dangos parch at gyflwyniad eu gwaith, ond ychydig iawn sy'n datblygu arddull llawysgrifen glwm gyson.

Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth fathemategol disgyblion. Fodd bynnag, mae defnydd disgyblion o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn anghyson, ac ar adegau nid yw lefel yr her yn ddigon uchel i'w galluogi i gymhwyso'r medrau hyn yn gynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol a chreadigol yn briodol.

Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn adnabod y rhai sydd angen cymorth ychwanegol yn amserol. Maent yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol ac yn trefnu rhaglenni cefnogi buddiol, lle bo'n briodol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn gwneud cynnydd addas.

Mae gan yr ysgol brosesau cryf i hybu presenoldeb, ac mae'n gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i gefnogi lles disgyblion. Mae pwyllgorau cynrychiolaeth disgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol at waith yr ysgol.

Caiff yr ysgol ei harwain gan bennaeth mewn gofal sydd â chyfrifoldeb dros ddwy ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar greu amgylchedd hapus lle mae pawb yn gwneud eu gorau. Gyda chefnogaeth arweinwyr eraill, mae'r weledigaeth hon yn cael ei gwireddu'n llwyddiannus. Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir. Maent yn gwerthuso'r ddarpariaeth drwy ystod briodol o weithgareddau ac yn gwneud gwelliannau perthnasol. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu proffesiynol staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn briodol. Maent yn gweithio'n gynhyrchiol gyda phartneriaid eraill.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn briodol. Mae ychydig ohonynt yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r blaenoriaethau datblygu presennol. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'r awdurdod lleol ar faterion strategol, gan gynnwys sicrhau arweinyddiaeth gynaliadwy. Mae arweinwyr yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol, fel cefnogi disgyblion ag ADY a hyrwyddo Cymreictod.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/07/2026